# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Mawrth, 15 Rhagfyr 2020

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd);

**Y Cynghorwyr:**
A. Lenny, S.M. Allen, I.W. Davies, J.A. Davies, J.M. Charles, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, C. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, B.D.J. Phillips, G.B. Thomas, J.E. Williams a/ac D.M. Cundy (yn lle P.M. Edwards);

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr D.M. Jenkins a wnaeth annerch y Pwyllgor o ran Cais Cynllunio E/39091;

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
L. Quelch, Y Pennaeth Cynllunio;
J. Edwards, Rheolwr Datblygu & Treftadaeth Adeiledig;
S. Murphy, Uwch-gyfreithiwr;
J. Thomas, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y De);
R. Davies, Swyddog Rheoli Datblygu [De];
S. Dawson, Prisiwr;
E. Jones, Swyddog Rheoli Datblygu;
F. Williams, Development Management Assistant - Minerals;
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
J. Corner, Swyddog Technegol;
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd;
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd;
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd.

**Rhif Gyfarfod:10.00 yb - 12.55 yp**

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr. P. Edwards a K. Madge.

**2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONAL**

Ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau personol.

**3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD**

**3.1 y dylid rhoi caniatâd cynllunio i gais E/39092, yn groes i argymhelliad y Pennaeth Cynllunio i wrthod, ar y sail na fyddai'r datblygiad arfaethedig yn cael effaith andwyol ar y dirwedd, byddai cymeriad a golwg y safle yn gwella ac roedd y cais yn unol â'r Cynllun Datblygu Lleol;**

**3.2 bod awdurdod yn cael ei ddirprwyo i'r Pennaeth Cynllunio ychwanegu amodau priodol at yr hysbysiad caniatâd.**

| | |
|---|---|
| **E/39092** | **Uned storio amaethyddol ar dir i'r de o Heol Grenig (i'r gorllewin o Pantyffynnon), Glanaman, Rhydaman**<br>Cafwyd sylwadau gan yr Aelod lleol a oedd yn cefnogi'r cais ar y |

| | |
|---|---|
| | sail bod y cais ar gyfer adeilad amaethyddol cymedrol a fyddai'n gweddu i'r dirwedd ac yn gwella golwg gyffredinol y safle. |

**4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO**

**PENDERFYNWYD y dylid caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn adroddiad y Pennaeth Cynllunio a / neu yr adroddwyd amdanynt yn y cyfarfod ac, o ran cais S/40412, dylid rhoi awdurdod i'r Pennaeth Cynllunio i wrthod y cais os na lofnodir cytundeb cyfreithiol o fewn 6 mis i'r penderfyniad hwn:-**

| | |
|---|---|
| **S/40412** | **Tŷ annedd ar wahân - tir gerllaw Singleton Road, Tymbl Uchaf, Llanelli, SA14 6DS**<br>[Noder: Nid oedd y Cynghorydd D. Jones yn bresennol ar gyfer yr eitem hon]<br>Cafwyd sylwadau a wrthwynebai'r cais ac a ailadroddodd y pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys pryderon mewn perthynas â'r canlynol:<br>• Gorddatblygu safle /safle yn rhy fach;<br>• Datblygiad tandem;<br>• Colli amwynder preswyl;<br>• Llesiant a cholli preifatrwydd;<br>• Diogelwch priffyrdd a cherddwyr, gan gynnwys traffig, materion mynediad ac agosrwydd at Lwybr Cyhoeddus;<br>• Draenio a materion llifogydd lleol;<br>• Y safle wedi cael ei wrthod yn y gorffennol ar gyfer datblygiad preswyl gyda honiadau na fu unrhyw newidiadau i'r cynigion nac amgylchiadau'r safle;<br>• Materion mynediad i gynnal a chadw'r eiddo;<br>Ymatebodd Asiant yr ymgeisydd, y Swyddog Rheoli Datblygu a'r Uwch-dechnegydd (Cydgysylltydd Cynllunio Priffyrdd) i'r materion a godwyd. |
| **PL/00513** | **Amrywio amod 1 ar S/11618 (ymestyn y terfyn amser i 15 mlynedd) yn Llanelli Sand Dredging Ltd, Ystâd Ddiwydiannol Porth Tywyn, Porth Tywyn, Llanelli, SA16 0NN** |
| **PL00673** | **PL/00673 - Cynllun i gadw ac adfer wyneb blaen yr adeilad, ynghyd â chadw'r wal berimedr, y prif waliau strwythurol mewnol a'r grisiau presennol, dymchwel gweddill yr adeilad a'i ailadeiladu ar ôl hynny i ddarparu defnydd masnachol A1/A2/A3 ar y llawr gwaelod, defnydd swyddfa B1 ar y llawr cyntaf ac 8 uned breswyl ar y lloriau uchaf ynghyd â lleoedd parcio cysylltiedig i breswylwyr ar y llawr gwaelod - Hen adeilad yr YMCA, 49 Stryd Stepney, Llanelli, SA15 3YA** |

**5.** **COFNODION - 17 TACHWEDD 2020**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor a gynhaliwyd ar 17 Tachwedd 2020 yn gywir.**

_____________________________ ______________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**

[SYLWER: *Mae'r cofnodion hyn yn dilyn trefn y materion oedd ar agenda'r cyfarfod, a allai fod yn wahanol i drefn y materion mewn unrhyw weddarllediad gan y byddid wedi ymdrin gyntaf ag unrhyw geisiadau yr oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol i siarad amdanynt.*]